***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 3

ASESU ADDYSG UWCH: CORFF DYNODEDIG

## RHAN 2

GORUCHWYLIAETH GAN Y COMISIWN

*Cymhwyso*

4 Mae’r Rhan hon yn gymwys os oes corff a ddynodir o dan yr Atodlen hon i arfer y swyddogaethau asesu.

*Pŵer i ddarparu cyllid*

5 Caiff y Comisiwn ddarparu cyllid i’r corff dynodedig er mwyn arfer y swyddogaethau asesu.

*Trefniadau goruchwylio*

6 Rhaid i’r Comisiwn wneud trefniadau er mwyn dwyn y corff dynodedig i gyfrif am arfer y swyddogaethau asesu.

*Adroddiad blynyddol gan y corff dynodedig*

7 (1) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd blynyddol, rhaid i’r corff dynodedig lunio adroddiad am arfer y swyddogaethau asesu yn ystod y cyfnod a’i anfon i’r Comisiwn.

(2) Ystyr “cyfnod adrodd blynyddol”, mewn perthynas â chorff dynodedig, yw—

(a) y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r dyddiad effeithiol, a

(b) pob cyfnod dilynol o 12 mis.

*Pŵer y Comisiwn i roi cyfarwyddydau*

8 (1) Caiff y Comisiwn roi cyfarwyddydau cyffredinol i’r corff dynodedig ynghylch arfer y swyddogaethau asesu.

(2) Wrth roi’r cyfarwyddydau hynny, rhaid i’r Comisiwn roi sylw i’r angen i ddiogelu—

(a) arbenigedd y corff dynodedig, a

(b) gallu’r corff dynodedig i wneud, neu i wneud trefniadau ar gyfer gwneud, asesiad diduedd o ansawdd yr addysg uwch a ddarperir gan ddarparwr addysg drydyddol.

(3) Rhaid i’r cyfarwyddydau ymwneud—

(a) â darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy’n darparu addysg uwch neu ddarparwyr cofrestredig sy’n darparu addysg uwch yn gyffredinol, neu

(b) â disgrifiad o’r darparwyr hynny.

(4) Rhaid i’r corff dynodedig gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir o dan y paragraff hwn.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

*Dyletswydd y Comisiwn i roi gwybod i Weinidogion Cymru am bryderon sylweddol*

9 Rhaid i'r Comisiwn roi gwybod i Weinidogion Cymru os oes ganddo bryderon sylweddol ynghylch—

(a) sut y mae'r corff dynodedig yn arfer y swyddogaethau asesu, neu

(b) addasrwydd parhaus y corff dynodedig i arfer y swyddogaethau hynny.